Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol GG Cwmllynfell
## Heol Y Bryn
## Cwmllynfell
## Abertawe
## SA9 2FJ

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol GG Cwmllynfell

Lleolir Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmllynfell ym mhentref Cwmllynfell, yn awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot. Mae 90 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae gan yr ysgol bedwar dosbarth oed cymysg ac un dosbarth meithrin rhan amser.

Dros dreigl tair blynedd, mae tua 8% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn llawer is na'r ganran genedlaethol, sef 18%. Mae tua 60% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 19% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn llai na'r ganran genedlaethol o 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2010 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Medi 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg effeithiol ac maent yn cyflawni'n dda ar lafar. Pan gânt gyfleoedd pwrpasol i lwyddo, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu darllen a'u hysgrifennu, o ystyried eu mannau cychwyn. Yn ystod sesiynau heriol yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn caffael medrau Saesneg da, wrth iddynt drafod, darllen ac ysgrifennu.

Pan gânt gyfleoedd ysgogol, mae llawer yn datblygu medrau rhifedd pwrpasol ac yn eu defnyddio'n dda mewn gweithgareddau dyddiol. Mae eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gadarn.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gofalu'n ddiwyd am y disgyblion mewn ffyrdd synhwyrol a chydwybodol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn ymfalchïo yn eu hysgol gan deimlo bod yr ysgol yn rhan bwysig o'u cymuned. Yn ogystal, maent yn ofalgar o'i gilydd ac, ar y cyfan, yn parchu eu cyfoedion ac oedolion.

Mae arweinyddiaeth y pennaeth wedi ei seilio ar weithdrefnau rheoli cyson. Mae hi'n cydweithio'n agos iawn gyda'r athrawon a'r cymorthyddion brwdfrydig. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol ac ymroddgar ac maent yn herio'r ysgol yn synhwyrol fel ffrindiau beirniadol. Ar y cyfan, mae'r arweinwyr yn targedu'r meysydd i'w datblygu yn briodol trwy weithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio datblygu rheolaidd.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod arweinwyr yn monitro'r addysgu yn effeithiol i ddarparu adborth adeiladol i athrawon, i wella'u harfer ymhellach

A2 Sicrhau bod addysgu'r athrawon, eu cynllunio a'u hymatebion i waith disgyblion ar draws y cwricwlwm, yn herio'r holl ddisgyblion i berfformio ar eu gorau'n gyson

A3 Gwella'r ddarpariaeth i gefnogi'r addysgu a'r dysgu yn yr awyr agored, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae llawer yn cychwyn yr ysgol â medrau cyfathrebu Cymraeg sydd yn is na'r safon a ddisgwylir am eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg effeithiol i wneud cynnydd da. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n gadarn yn erbyn eu targedau personol.

Mae'r rhan fwyaf yn cyflawni'n llwyddiannus wrth ddatblygu eu medrau llafar. Maent yn hyderus ar lafar yn y Gymraeg ac yn esbonio eu gwaith yn synhwyrol, fel disgrifio rhannau corff pengwin. Mae medrau llafar Saesneg y rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn aeddfed, er enghraifft wrth iddynt fyfyrio ar erchylltra'r Blits a bywyd faciwî ar ôl ffoi o Lundain.

Mae llawer yn gwrando'n astud ar oedolion a chyfoedion, sy'n cyfrannu'n bwysig at eu dysgu. Er enghraifft, mae llawer yn y cyfnod sylfaen yn gwrando'n synhwyrol ar gyfarwyddiadau i ddarganfod pa wrthrychau sy'n cael eu denu gan fagnetau. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio eu medrau gwrando yn ddigon effeithiol ac, o ganlyniad, maent yn colli ffocws yn ystod tasgau, sy'n llesteirio eu dysgu.

Mae llawer yn datblygu medrau darllen cadarn ac yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn gywir, trwy ddefnyddio strategaethau ffonig defnyddiol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn darllen testunau amrywiol yn y Gymraeg yn ddeallus. Maent yn trafod cynnwys eu llyfrau'n synhwyrol, fel darllen stori am fywyd yr ysbyty i 'gleifion' wrth chwarae rôl. Mae llawer yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn ystyrlon ac ynganu'n glir yn y ddwy iaith. Maent yn gwahaniaethu'n dda rhwng llyfrau ffuglen a ffeithiol ac yn nodi rhinweddau cymeriadau'n gywir. Er enghraifft, maent yn esbonio'n glir fod mab biliwnydd yn gwynebu anawsterau yn ei fywyd fel pawb arall. O ganlyniad, pan gânt gyfleoedd pwrpasol, maent yn ymarfer eu medrau darllen uwch i ymestyn eu dealltwriaeth, o wahanol ffynonellau, yn llwyddiannus.

Pan gânt y cyfleoedd mwyaf effeithiol, mae llawer yn ysgrifennu'n bwrpasol at wahanol ddibenion mewn ystod o gyd-destunau. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu darnau diddorol fel dyddiadur Siôn Corn a rysait i greu cacennau i wledd y dywysoges. Yng nghyfnod allweddol 2, pan gânt gyfleoedd ymestynnol, mae llawer yn ysgrifennu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith i ystod eang o bwrpasau. Er enghraifft, maent yn dadlau am rinweddau cyfryngau cymdeithasol, ac ystyried pwrpas rhannau o'r corff yn fwriadus. Fodd bynnag, nid yw ysgrifennu estynedig y disgyblion yn adlewyrchu eu gwir alluoedd ac nid ydynt yn cyflawni hyd eithaf eu gallu yn rheolaidd.

Mae llawer yn cyflawni'n gadarn mewn rhifedd pan gânt y cyfleoedd i weithio'n annibynnol. Maent yn cymhwyso'u gwybodaeth flaenorol mewn sefyllfaoedd newydd ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus. Enghraifft dda yw'r ffordd y mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio'u medrau mesur i greu 'coctel' gyda sudd gwahanol ar gyfer ceidwad goleudy. Yn ogystal, maent yn cymharu maint eu traed, gan greu bas data effeithiol o'u canfyddiadau ac arddangos eu canlyniadau yn bwrpasol ar ffurf graff.

Mae gan lawer yng nghyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth gadarn o sut i ddefnyddio data yn gynyddol gywir a'i gyflwyno mewn amrywiol ffurfiau. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn deall bod angen defnyddio graffiau gwahanol i gyfleu gwybodaeth wyddonol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn creu graff llinell am ba nwyddau sy'n cadw gwres mewn cwpanau orau. Yn ogystal, maent yn defnyddio cyfesurynnau mewn pedwar pedrant yn hyderus i greu llun o gymeriad dychmygol. O ganlyniad, pan gânt y cyfle, mae llawer yn cymhwyso'u medrau rhifedd estynedig yn bwrpasol.

Mae llawer yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio offer TGCh yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio rhaglenni addysgol i greu baneri ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi ac animeiddio ffilm am bili-pala yn yr ardd. Mae llawer yng nghyfnod allweddol 2 yn arddangos medrau TGCh cadarn, gan gymhwyso'u medrau'n dda a dethol y dulliau mwyaf addas i gyflwyno'u gwaith. Er enghraifft, maent yn creu basau data defnyddiol i fewnbynnu gwybodaeth am ficrobau. Yn ogystal, maent yn cwestiynu a threfnu'r wybodaeth yn hyderus. Maent yn darganfod patrymau penodol i gyfiawnhau eu dealltwriaeth, fel nodi'r halen a'r braster sydd mewn cyfansawdd creision. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio cyfrineiriau diogel yn bwrpasol i fewngofnodi i wefannau dysgu, i gyflawni eu gwaith yn y dosbarth ac adref.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, o fewn y naws gartrefol a theuluol sy'n bodoli ynddi. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando ar safbwyntiau eraill yn synhwyrol ac yn ymateb yn aeddfed i'w gilydd, gan fynegi eu barnau yn glir. Maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn cydymdeimlo â phryderon eu cyfoedion yn ddeallus. Mae ymddygiad bron pob disgybl tu mewn a thu allan i'r dosbarth yn gyson dda. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, y staff ac ymwelwyr.

Mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n unigol, mewn parau a grwpiau yn aeddfed. Maent yn trafod eu gwaith yn hyderus ac mae gan lawer, ar draws yr ysgol, agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Ar y cyfan, maent yn gweithio'n bwrpasol, er nad yw ychydig ohonynt yn barod i gychwyn ar eu gwaith yn ddigon prydlon ar ddechrau sesiynau dysgu. Mae llawer yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau ac yn newid o un gweithgaredd i'r llall yn hwylus.

Mae'r rhan fwyaf yn cyfrannu'n fuddiol i'w dysgu trwy gynnig syniadau i'w cynnwys yn y themâu tymhorol. Maent yn mynegi barnau dilys am beth i ddysgu, er mwyn datblygu eu dealltwriaeth ymhellach yn synhwyrol. Er enghraifft, maent yn cyflwyno syniadau yn hyderus am beth i ddysgu yn ystod y themâu, 'O dan y Croen' a 'Bwyd'.

Mae'r rhan fwyaf yn oddefgar a sensitif i anghenion a dyheadau disgyblion eraill, sy'n debyg neu'n wahanol iddyn nhw. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth gadarn o degwch a phwysigrwydd cyfle cyfartal. Er enghraifft, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o hawliau plant ac maent yn gweithredu'r gwerthoedd hyn yn ddyddiol ar lawr y dosbarth.

Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach trwy fwyta diet cytbwys ac yfed dŵr. Mae gwybodaeth y rhan fwyaf ohonynt o bwysigrwydd cadw'n heini yn dda. Yn ogystal â'r gwersi ymarfer corff rheolaidd, maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau diddorol er mwyn gwella eu ffitrwydd. Un enghraifft dda yw'r clwb cerdded sydd yn weithredol yn ddyddiol.

Mae bron pob un, yn unol â'u hoed, yn deall pwysigrwydd diogelwch ar-lein yn effeithiol, ac yn amlinellu'r peryglon all godi yn sgîl defnydd anaddas o'r we. Mae'r disgyblion sy'n arweinwyr digidol a sesiynau gan yr heddlu yn cyfoethogi dealltwriaeth y disgyblion yn fwriadus. Yn ogystal, mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn bod camddefnyddio sylweddau ac ysmygu yn niweidio'u cyrff.

Mae bron pob disgybl yn gydwybodol ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor ysgol, y pwyllgor eco a'r llysgenhadon ifanc yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn ddiwyd. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau arwain o fewn yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn ymfalchïo yn eu rolau'n fawr, gan eu bod wedi eu dewis trwy etholiad gan eu cyfoedion. Maent yn trafod eu rolau arwain yn hyderus, gan roi rhesymau pwrpasol dros benderfynu ar ran eraill o fewn cymuned yr ysgol. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ategu at adnoddau ar fuarth yr ysgol, sy'n deillio o awgrymiadau'r cyngor ysgol.

Mae bron pob disgybl yn datblygu'n ddinasyddion moesol a chydwybodol. Maent yn deall pwysigrwydd cynaliadwyedd yn dda ac yn ymhyfrydu mewn ymweliadau i gartref yr henoed, ac i'r ganolfan addysg arbennig leol. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion cymdeithasol a chryfhau eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill yn effeithiol iawn.

Mae bron pob disgybl yn hapus i fynychu'r ysgol ac yn datgan eu clod am y gweithgareddau creadigol sydd ar gael iddynt a'r ethos cyfeillgar sy'n bodoli. Mae bron pob un yn cyrraedd yn brydlon, ac er bod y presenoldeb wedi gwella'n ddiweddar, dros amser nid yw'n cymharu cystal ag ysgolion tebyg.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n dda i hybu'r dysgu a rheoli ymddygiad y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r berthynas waith gynhaliol ymhob dosbarth yn meithrin parch a chwrteisi ac yn creu awyrgylch gynhyrchiol. Mae'r holl oedolion yn modelu iaith raenus ac yn annog a chefnogi'r disgyblion i ddefnyddio Cymraeg safonol a chyson, sy'n naturiol i'w hardal leol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth siarad, a llawer yn gwrando'n astud ar oedolion a'i gilydd.

Llwydda'r athrawon i wneud eu dosbarthiadau yn lleoedd ysgogol a difyr. Mae arddangosfeydd lliwgar ac apelgar yn cefnogi'r addysgu a'r dysgu yn dda. Mae'r athrawon yn cychwyn cynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru, gyda phwyslais priodol ar yr angen i adeiladu ar fedrau, profiadau a gwybodaeth y disgyblion ar eu taith drwy'r ysgol.

Ar y cyfan, mae egwyddorion y cyfnod sylfaen yn weithredol. O fewn y dosbarthiadau, mae'r ysgol yn llwyddo i ddarparu ar gyfer y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth awyr agored wedi ei datblygu i gefnogi a chyfoethogi'r addysgu a'r dysgu yn gwbl effeithiol.

Mae'r athrawon yn defnyddio dulliau addysgu cadarnhaol er mwyn gwella safonau llawer o'r disgyblion. Maent yn holi'n gyson i ddatblygu ymatebion a syniadau'r disgyblion ymhellach. Fodd bynnag, er bod cynnwys y gwersi'n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion yn briodol, mae'r athrawon yn dueddol o or-arwain y disgyblion yn aml. O ganlyniad, mae eu harferion yn cyfyngu ar allu'r disgyblion, yn enwedig y mwyaf abl, i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn rhannu amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant yn rheolaidd gyda'r disgyblion, ac yn cynnig cyfleoedd iddynt asesu eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion. Fodd bynnag, ar adegau, mae gormod o amser yn y gwersi wedi ei glustnodi ar gyfer cofnodi'r amcanion a'r meini prawf yn llyfrau gwaith y disgyblion. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn dechrau ar eu dysgu yn ddigon prydlon.

Mae'r athrawon yn cynllunio ystod o brofiadau diddorol a difyr, fel cynllunio teithiau i amgueddfeydd i astudio'r Ail Ryfel Byd. Mae cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion gyfrannu at eu dysgu eu hunain, yn enwedig wrth drafod eu syniadau cyn cychwyn â'r themâu newydd. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio'n ddigon cadarn er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad effeithiol yn nysgu'r disgyblion. Yn ogystal, nid oes digon o sylw tuag at herio grwpiau penodol o ddisgyblion hyd eithaf eu gallu o'u mannau cychwyn gwahanol.

Pan mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd effeithiol, mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni medrau llythrenedd da. Maent yn cynnig cyfleoedd cadarn i'r disgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn defnyddio sgrîn werdd i greu ffilm ar ficrobau a thasgau i reoli dyledion yn y banc.

Ar y cyfan, mae asesiadau'r athrawon yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy. Yn bennaf, mae adborth llafar ac ysgrifenedig yr athrawon yn gymorth i ddisgyblion wybod pa mor dda y maent yn ei wneud. Fodd bynnag, nid yw'r asesiadau dyddiol, ar draws yr holl gwricwlwm, yn gymorth defnyddiol a chyson i ddisgyblion adnabod y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae'r addysgu a'r cynllunio yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cynefin yn effeithiol. Mae'r ysgol yn annog y disgyblion i wrando ar gerddoriaeth gyfoes Gymraeg ac yn trefnu ymwelwyr i'r ysgol i gyfoethogi eu profiadau, gan gynnwys hanesydd lleol i drafod hanes y pentref a'i ddiwydiant. Yn ogystal, maent yn cymharu eu hardal leol â Kenya. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o ddiwylliant a Chymreictod eu milltir sgwâr a statws Cymru yn y byd.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae trefniadau'r ysgol i sicrhau gofal a lles y disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn gymuned hapus, teuluol a gofalgar, lle rhoddir pwyslais cadarn ar ddarparu cymorth pwrpasol i bob unigolyn. Mae gweithdrefnau'r ysgol yn meithrin dulliau cadarnhaol o reoli ymddygiad ac maent yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus gan bob aelod o staff. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn ymfalchïo'n fawr yn eu hysgol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r staff yn annog yr holl ddisgyblion i gyfrannu'n ddoeth i'r gymuned, er mwyn datblygu fel dinasyddion cyfrifol, sy'n barod i helpu eraill. Mae eu gwaith o fewn eu cymuned yn cyfrannu'n effeithiol at hyn, fel ymweld â'r henoed a chasglu'n gyson tuag at elusennau lleol a chenedlaethol.

Mae nifer o bwyllgorau gweithgar yn hybu llais y disgybl yn ddeallus. Maent yn eu hannog i gymryd cyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau synhwyrol er lles eu cyfoedion a'r ysgol. Enghreifftiau cadarnhaol o hyn yw sut mae'r swyddogion iaith yn hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ym mywyd yr ysgol. Yn ogystal, mae'r

llysgenhadon ifanc yn llwyddo'n dda i gefnogi'r disgyblion iau, trwy drefnu a chwarae gemau yn ystod amser cinio.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn siarad yn hyderus am arferion bwyta'n iach ac yn deall pwysigrwydd diet cytbwys. Mae'r staff yn annog disgyblion i gadw'n heini yn llwyddiannus. Maent yn darparu gwersi ymarfer corff rheolaidd a chynnig ystod o brofiadau allgyrsiol pwrpasol i hybu ffitrwydd disgyblion yn effeithiol. Enghraifft dda yw'r cyfle i redeg milltir yn ddyddiol.

Mae'r trefniadau ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn drylwyr. Gwneir defnydd effeithiol o'r canfyddiadau i dargedu anghenion dysgu ychwanegol unigolion yn fwriadus. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn a'u cymorth ychwanegol yn llwyddiannus ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol effeithiol. Maent yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a thargedau buddiol i symud disgyblion ymlaen yn eu dysgu yn dda. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r disgyblion, yr athrawon a'r rhieni. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Mae perthynas gadarn yn bodoli rhwng y rhieni a'r ysgol. Mae'r polisi drws agored yn sicrhau bod cyfathrebu effeithiol rhwng athrawon a rhieni. Defnyddir cyfryngau cymdeithasol yn llwyddiannus i hysbysu am weithgareddau a digwyddiadau allweddol. O ganlyniad, mae'r rhieni yn ymwybodol o weithgareddau a digwyddiadau'r ysgol. Cynigir cyfleoedd buddiol i rieni ymweld â'r ysgol i edrych ar lyfrau eu plant. Mae hyn yn cryfhau eu dealltwriaeth o beth maent yn dysgu yn yr ysgol ac mae'n ymestyn eu gallu'n dda i gefnogi eu plant adref.

Caiff y disgyblion gyfleoedd buddiol i ddysgu am hanes a diwylliant Cymru. Maent yn astudio hanes y diwydiant glo yn yr ardal leol, ac yn gwrando ar gerddoriaeth draddodiadol a chyfoes yn rheolaidd. Yn ogystal, mae cyfleoedd llwyddiannus i ddisgyblion ehangu eu medrau creadigol trwy efelychu gwaith arlunwyr Cymreig. O ganlyniad, mae'r gweithgareddau'n datblygu medrau creadigol a mynegiannol y disgyblion yn fwriadus.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau allanol fel y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar allu'r disgyblion i gadw'n ddiogel ar-lein ac i ddeall bod dyletswydd arnynt i leihau unrhyw risg yn eu bywydau, fel cam-drin sylweddau. Mae'r pennaeth a'r staff yn gweithio'n ddiwyd i geisio gwella presenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r presenoldeb yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg dros amser.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth y pennaeth wedi ei seilio ar weithdrefnau rheoli cyson. Mae hi'n annog awyrgylch teuluol, sy'n seiliedig ar gymorth a gofal cadarn. Mae ei gweledigaeth strategol yn arwain at ethos hynod ofalgar, diogel a chynhwysol, sy'n sicrhau bod disgyblion yn cyflawni'n dda. Mae'r pennaeth yn arwain y staff yn llwyddiannus i fynd i'r afael â materion pwysig, fel hybu'r Gymraeg a gweithredu hawliau plant yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r athrawon yn cefnogi ei gweithredoedd rheoli i sicrhau gwelliannau, fel gwreiddio arferion rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso cyson gan yr ysgol.  Mae cyswllt amlwg rhwng canfyddiadau'r gweithdrefnau hunanwerthuso a'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu.  Mae'r arweinwyr yn diffinio blaenoriaethau'n dda ac yn mesur cynnydd yn synhwyrol i adnabod agweddau sydd angen sylw pellach.  Mae amserlen fanwl ar gyfer arsylwi gwersi, teithiau dysgu a chraffu ar waith disgyblion, sy'n arwain yn bwrpasol at adroddiadau monitro dilys.  Maent yn dangos yn briodol y mannau sydd angen sylw.  Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr yn monitro'r argymhellion dilynol o'r adroddiadau craffu yn ddigon trylwyr, er enghraifft wrth geisio gwella agweddau pwysig o'r addysgu ac i ddarparu adborth adeiladol i athrawon, i wella'u harfer ymhellach.

Mae strwythur staffio clir gan yr ysgol ac mae disgwyliadau pob rôl wedi eu diffinio'n bendant yn erbyn cyfrifoldebau penodol.  Mae trefniadau cyfarfodydd staff yn creu rhwydwaith o gyfathrebu effeithiol, sy'n creu ffocws pwrpasol ar wella deilliannau'r disgyblion.  Mae'r pennaeth yn amserlennu cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu yn ddoeth, mewn modd hyblyg, sy'n ystyried digwyddiadau wythnosol yr ysgol.  Mae'r weithdrefn yn caniatáu staff i baratoi'r addysgu a'r dysgu yn briodol ar gyfer eu dosbarthiadau.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol wybodaeth gadarn am berfformiad yr ysgol. Maent yn derbyn mewnbwn ymarferol gan y pennaeth am weithdrefnau hunanwerthuso a'r cynllunio strategol.  Maent yn cydweithio'n effeithiol â'r pennaeth trwy graffu ar lyfrau a chynnal teithiau o gwmpas yr ysgol.  O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o gryfderau'r ysgol ac unrhyw anghysondebau sy'n bodoli yn y ddarpariaeth.  Mae hyn yn eu galluogi i ddwyn y pennaeth i gyfrif ac i gefnogi cyfeiriad strategol clir i ddatblygu'r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol. Maent yn sicrhau bod gan yr ysgol adnoddau priodol, gan gynnwys y cymorthyddion, sy'n rhan annatod o'r tîm, ac sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at godi safonau disgyblion, a sicrhau eu gofal a'u lles.

Mae gweithdrefnau pwrpasol yn bodoli ar gyfer rheoli perfformiad athrawon a'r cymorthyddion.  Maent wedi eu cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau'r ysgol ac yn mynd i'r afael yn llwyddiannus ag anghenion datblygiad personol y staff.  Er enghraifft, maent yn ymdrechu ar hyn o bryd i dargedu llythrennedd a rhifedd disgyblion.  Yn ogystal, mae'r arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn effeithiol.  Er enghraifft, mae'r ffocws cryf ar weithredu'r Siarter Iaith yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd y disgyblion o'r Gymraeg.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn sicrhau defnydd effeithiol o'r adeilad i gefnogi dysgu a chynnydd y disgyblion yn llwyddiannus.  Er enghraifft, maent yn defnyddio'r llyfrgell gwerthfawr er mwyn cefnogi anghenion penodol disgyblion bregus.  Fodd bynnag, mae diffyg yn y ddarpariaeth awyr agored, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen. Nid yw'r adnoddau yn yr ardal allanol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn ddigon llwyddiannus i ddatblygu eu medrau ymhellach.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn sicrhau bod y gyllideb a'r grantiau ychwanegol i ddatblygu'r ddarpariaeth a gwella safonau yn cael eu defnyddio'n dda.  Mae'r gwariant yn cysylltu'n fwriadus â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ac mae monitro'r cyllid yn drylwyr yn sicrhau effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.  Enghreifftiau llwyddiannus o hyn yw cyllido profiadau dysgu, fel ymweliadau preswyl i ganolfannau addysgol, gwersi cerdd a chlybiau ar ôl ysgol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  19/08/2019